Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Llanfarian

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Un o rinweddau nodedig Ysgol Llanfarian yw ei bod yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n meithrin lles a hybu dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ddoeth ac yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio rhwng staff yn effeithiol. Caiff yr ysgol ei chefnogi'n fwriadus gan y corff llywodraethol sy'n gweithredu prosesau gwerthuso gyda'r pennaeth yn dda i lywio'r addysgu a'r dysgu. Mae'r pennaeth yn cydweithio a chyfathrebu'n gyson â rhieni'n gyson sy'n hyrwyddo'r ysgol yn llwyddiannus yn ei chymuned leol.

Mae staff yn adnabod anghenion lles a dysgu pob disgybl yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gefnogol â disgyblion sy'n cyfrannu'n dda at feithrin eu lles a'u hybu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau perthnasol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, yn enwedig eu medrau iaith a digidol. Mae'r 'Clwb Darllen' cyn ysgol yn hyrwyddo brwdfrydedd disgyblion mewn darllen yn dda. Mae darpariaeth briodol er mwyn cefnogi disgyblon i gymhwyso eu medrau rhifedd drwy brofiadau addas. Mae athrawon yn cyfoethogi'r ddarpariaeth trwy drefnu gweithgareddau diddorol sy'n helpu disgyblion i gryfhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am wahanol themâu. Ar brydiau, mae staff yn darparu cyfarwyddiadau strwythuredig i ddisgyblion sy'n eu cyfyngu i wneud dewisiadau annibynnol ar sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn hapus wrth chwarae gyda'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n oddefgar ac yn cyfranogi yn eu dysgu yn dda. Mae llawer yn gwneud cynnydd yn eu medrau ac yn dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am yr ardal leol, Cymru a'r byd yn wybodus. Nodwedd gref o'r ysgol yw agweddau a chwrteisi'r disgyblion at ei gilydd ac oedolion.

# Argymhellion

**A1** **Darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiol feysydd a chyd-destunau diddorol**

**A2** **Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn dysgu**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfarian |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 12.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 21.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 21.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.